Papur Briffio 5

Plant sy'n Ceisio Lloches

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

> "*Ddaeth yr un ohonon ni yma o ddewis – mae'n well na byw mewn parth rhyfel. Dwi wedi bod yma ers 16 mis…Dwi'n teimlo'n ofnus ac yn unig.*"
>
> Plentyn 17 flwydd oed sy'n ceisio lloches ar ei ben ei hun
> Dyfodol Ansicr: Plant sy'n Chwilio am Loches yng Nghymru
> Achub y Plant 2005

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Plant sy'n Ceisio Lloches

Mae mewnfudo a lloches yn feysydd polisi sydd heb gael eu datganoli; er hynny, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yw darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae ceiswyr lloches yng Nghymru yn eu cael. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n ceisio lloches sy'n byw yng Nghymru yn preswylio yn yr ardaloedd gwasgaru presennol (a drefnwyd drwy'r Swyddfa Gartref) o fewn dalgylchoedd Awdurdodau Lleol Casnewydd, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd. Mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu cymorth a gwasanaethau sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain dan 18 oed nad oes ganddynt berthynas neu warcheidwad yn y DU yn dal i ddisgyn ar yr Awdurdod Lleol dros yr ardal lle y maent yn ceisio cymorth yn gyntaf. Bydd cynigion y Swyddfa Gartref ar gyfer y Model Lloches Newydd a diwygio'r trefniadau ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches[1] yn cael effaith sylweddol ar blant yng Nghymru.

Yn 2002 cyhoeddodd Pwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y sylwadau terfynol a ganlyn sy'n berthnasol i bwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Sicrhau bod plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn cael mynediad i wasanaethau sylfaenol, fel addysg ac iechyd ac nad oes gwahaniaethu o ran hawliau i dderbyn budd-daliadau yn erbyn teuluoedd sy'n ceisio lloches a allai effeithio ar blant.
- Ystyried penodi gwarcheidwaid i blant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain.
- Gwneud adolygiad o argaeledd ac effeithiolrwydd cynrychiolaeth gyfreithiol a mathau eraill o eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant dan oed a phlant eraill sydd ar eu pen eu hunain yn y systemau mewnfudo a lloches.

Beth sydd wedi'i gyflawni?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae datganiadau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyst i ymagwedd sy'n wahanol iawn i un Llywodraeth San Steffan mewn cysylltiad â cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Ar lefel San Steffan mae bwlch cynyddol rhwng deddfwriaeth a ddatblygwyd i amddiffyn plant a'r realiti o ran polisi ac ymarfer ym maes mewnfudo. Yng Nghymru, mae cydweithio rhwng y Gweinidog dros Blant a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio mewn cysylltiad â phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches wedi arwain at gyfres o gyfarfodydd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a gweithwyr proffesiynol allweddol yn y maes hwn. Yn y diwedd, arweiniodd y fenter hon at gynnwys pennod gynhwysfawr ar blant a phobl ifanc ym Mholisi Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd yn haf 2006. Bydd cynnwys a gweithrediad y strategaeth hon, mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc, yn ffon fesur hollbwysig i fesur cynnydd.

Beth yn fwy sydd angen ei wneud?

Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches, nid yw'r gwelliannau i wasanaethau rheng flaen, yn unol ag argymhellion *Dyfodol Ansicr* [2] (yr astudiaeth gyntaf yng Nghymru o blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches) wedi'u gwireddu eto. Er bod enghreifftiau o ymarfer da sydd wedi'u hariannu gan y sector statudol a'r sector anstatudol, mae pryderon ynghylch natur dymor byr a bregus y cyllid ar eu cyfer. Mae

[1] Rhaglen Ddiwygio Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches – disgwylir ymgynghoriad yn hydref 2006

[2] *Dyfodol Ansicr*, Achub y Plant, 2005

Dyfodol Ansicr yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau sylfaenol mewn meysydd fel iechyd, tai, addysg ac amddiffyn.

Er enghraifft, mae darpariaeth **addysg a hyfforddiant ôl-16** yn gyfyngedig. Mae pobl ifanc sy'n ceisio lloches yn gorfod talu ffioedd myfyrwyr tramor ac nid ydynt yn gymwys ychwaith i dderbyn Lwfansau Cynhaliaeth Addysg. Yng Nghymru, mae'r diffyg o ran **ffrydiau ariannu parhaol a sicr ar gyfer gofal iechyd ceiswyr lloches** yn her fawr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd. Mae darpariaeth gwasanaethau arbenigol, sydd wedi'u canmol, yn un ansicr gan fod yr holl nyrsys sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny yn gweithio ar gontractau tymor byr neu ar secondiad oherwydd diffyg cyllid sicr. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr eraill yn y rheng flaen yn dal i fynegi pryderon dybryd ynghylch y **diffyg o ran darpariaeth iechyd meddwl arbenigol**. Mae'n anodd i ddarparwyr gwasanaethau gynllunio a darparu gwasanaethau'n ddigonol i'r grŵp hwn o blant sy'n agored i niwed am fod **bylchau yn y data ystadegol allweddol sydd ar gael** ac mae'r amrywiadau mewn niferoedd a geir bob wythnos yn gwaethygu hynny.

Mae rhai materion yn codi hefyd ynghylch ansawdd rhai gwasanaethau, er gwaethaf ewyllys da'r staff rheng flaen. Mae polisi ac ymarfer ym maes lloches yn gymhleth ac yn newid yn gyflym. Mae diffyg gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â lloches yn amharu ar **safonau ymarfer** ac mae hynny'n effeithio ar blant sydd ar eu pen eu hunain a'r rhai sydd mewn teuluoedd. Gellir peidio â sylwi ar faterion cymhleth fel masnachu mewn plant. Mae gan y rhan fwyaf o blant yng Nghymru ryw oedolyn yn eu bywyd, rhywun sy'n gallu eu cynrychioli, gwneud penderfyniadau ar eu rhan a hyrwyddo eu buddiannau. Nid oes **'gwarcheidwad'** gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru, heb sôn am fynediad at wasanaethau **eiriolaeth annibynnol** sylfaenol a phriodol. Mae pryderon mawr ynghylch y gostyngiad yn y **cyngor cyfreithiol arbenigol** sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru. O ganlyniad i'r system bresennol, mae statws lloches plant ar eu pen eu hunain yn llai ffafriol na'r hyn sydd gan oedolion[3]. Yn y cyd-destun hwn a hefyd yng ngolwg trefniadau Llywodraeth y DU i ddychwelyd plant sydd ar eu pen eu hunain, mae'n hollbwysig bod pobl ifanc yn cael mynediad at gyngor cyfreithiol arbenigol. Mae pryderon gwirioneddol ynghylch capasiti **Llywodraeth bresennol y Cynulliad Cenedlaethol i gydgysylltu'n ddigonol â'r Swyddfa Gartref** i egluro amgylchiadau plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Mae ein **hargymhellion** ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru fel a ganlyn:

- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau, o ran polisi ac ymarfer, fod **egwyddor y budd gorau** yn Erthygl 2 o CCUHP yn gymwys i'r holl blant sy'n ceisio lloches.
- Cynnal adolygiad o'r **mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol** yng Nghymru a rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod teuluoedd a phobl ifanc yng Nghymru'n cael mynediad at gyngor cyfreithiol arbenigol.
- Sicrhau bod mecanweithiau dibynadwy ar waith i **gasglu ystadegau** am blant mewn teuluoedd a phlant sydd ar wahân (ar eu pen eu hunain).
- Sicrhau **mynediad at ddarpariaeth iechyd**. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb â'r boblogaeth leol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofalu bod darpariaeth arbenigol i hybu cydraddoldeb a mynediad i wasanaethau iechyd prif ffrwd; sicrhau ffrydiau ariannu tymor hwy ar gyfer gwasanaethau a sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gael sy'n ddiwylliannol dderbyniol ar gyfer plant sydd wedi profi trawma.
- Ariannu a hyrwyddo datblygiad **gwasanaeth eiriolaeth annibynnol arbenigol** a dylai hefyd ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu **system gwarcheidiaeth.**
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth i sefydlu uned wybodaeth i Gymru gyfan i **ddarparu gwasanaeth arbenigol** ar gyfer ymarferwyr, yn enwedig er mwyn helpu a chefnogi staff sy'n gweithio y tu allan i'r ardaloedd gwasgaru.

[3] Yn 2002, mae ffigurau ar gyfer y DU yn dangos bod 5% o'r ymgeiswyr dan 18 oed wedi cael lloches o'i gymharu â 27% o'r oedolion 25-29 oed a ymgeisiodd.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru